

PWYLLGOR SAFONAU

22 Gorffennaf 2020

Yn Bresennol: Mrs V Tomlinson (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Mr John Daniels, Mr P Davies, Cynghorydd R Owens,
Cynghorydd P Morgan, Dr R Plummer a Ms W Taylor.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2.30pm)

1. Ethol Cadeirydd

PENDERFYNWYD ethol Mr J Daniels yn Gadeirydd am weddill cyfnod ei swydd, h.y. tan yr 16^{eg} o Ragfyr 2022.

[Cymerodd Mr Daniels y Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]

Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith y Cadeirydd blaenorol, Mrs J Wainwright, yr oedd cyfnod ei swydd wedi dod i ben y llynedd. Hefyd estynnodd groeso i Mr Michael Kent fel Swyddog Monitro, ac i'r Aelodau hynny oedd newydd eu penodi yn Aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dywedwyd y gallai'r Dirprwy Gadeirydd presennol barhau yn ei swydd tan ddiwedd cyfnod ei swydd sef yr 22^{ain} o Fedi 2020.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19^{eg} o Ragfyr 2018 i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19^{eg} o Ragfyr 2018.

6. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2018/19

Llongyfarchodd y Swyddog Monitro y Cadeirydd ar ei benodi i'r swydd gan ychwanegu ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag ef. Dywedodd bod y Swyddog Monitro blaenorol, Mr Rhys Stephens, wedi ymddiswyddo fis Mai 2019, a'i fod yntau wedi dechrau ar ei swydd ar y 1^{af} o Hydref 2019, a bod Mrs Janet Evans, y Dirprwy Swyddog Monitro, wedi cyflawni'r rôl yn y cyfamser.



Dyweddod bod un adroddiad ers y cyfarfod diwethaf o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â materion cynllunio ar gwrs golff y Links Trefdraeth yr oedd copi ohono wedi'i atodi i'w adroddiad. Hefyd wedi'i atodi oedd copi o adroddiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gofyn am gadarnhau penodiad dau Aelod annibynnol newydd o'r Pwyllgor Safonau – Mr Phillip Davies a Ms Wendy Taylor.

Aeth y Swyddog Monitro rhagddo i ddweud nad oedd unrhyw gais am oddefeb wedi'i wneud yn y flwyddyn gyfredol. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 wedi dod i rym, a thynnwyd sylw at yr agweddau hynny o'r Ddeddf oedd yn berthnasol i'r Awdurdod. Hefyd roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol, ac nad oedd un o'r cwynion yn ymwneud ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Dyweddwyd bod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad wedi'i gynnal ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Rhagfyr 2019 ac ym mis Ionawr 2020, a bod hyfforddiant pellach ar arferion gorau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol wedi'i gynnal ers i'r Awdurdod gael yr hawl i gynnal y cyfarfodydd hynny gan y Rheoliadau Llywodraeth Leol newydd a gyflwynwyd ar yr 22^{ain} o Ebrill 2020.

Gan ddiolch i'r Swyddog am adroddiad cynhwysfawr, roedd yr Aelodau hynny o'r Awdurdod sy'n eistedd ar y Pwyllgor yn uchel eu canmoliaeth o'r sesiynau hyfforddiant oedd wedi'u cynnal. Dywedodd un Aelod bod y Swyddog Monitro ar y pryd yn y cyfarfod blaenorol wedi cytuno i drefnu sesiwn hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar asesu unrhyw achosion, yn enwedig y ceisiadau am oddefeb, allai ddod ger eu bron. Cytunodd yr Aelodau eraill y byddai'r cyfryw sesiwn yn ddefnyddiol, a chytunwyd y dylid trefnu hyn maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod ac i'r rhai oedd wedi hwyluso'r trefniadau, a'i obaith oedd y gellir cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y modd arferol.

